| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **5 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cais i newid enw Cymuned Llanaelhaearn** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo newid enw Cymuned Llanaelhaearn** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **AWDUR** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |

**Cefndir**

1. Mae'r awdurdod wedi derbyn cais gan Gyngor Cymuned Llanaelhaearn i newid enw'r Gymuned o ***Llanaelhaearn*** i ***Trefor a Llanaelhaearn***. Mae'r cais hwn i'w weld yn yr **Atodiad**.

2. Mae adran 76 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi'r hawl i Gyngor Gwynedd fel 'prif gyngor' newid enw cymuned os yw'n derbyn cais i wneud hynny gan y cyngor cymuned.

3. Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi unrhyw broses i'w dilyn gan y cyngor cymuned neu'r prif gyngor, nag yn cynnig unrhyw arweiniad pellach. Yn absenoldeb trefn benodol, cynghorwyd y cyngor cymuned y byddai'r Cyngor Llawn angen, fel gydag unrhyw benderfyniad, gwybodaeth ddigonol i'w ganiatáu i ddod i farn ar ôl pwyso a mesur rhinweddau'r cais. Byddai hynny'n cynnwys eglurhad o'r rhesymeg dros y cais a gwybodaeth am y farn o fewn y gymuned. Fe wêl aelodau bod y cais yn cynnwys eglurhad o'r rhesymau dros gyflwyno'r cais a'r camau a gymerwyd i geisio dod o hyd i'r farn o fewn y gymuned.

4. Bydd aelodau'n ymwybodol fod y Cyngor eisoes yn cynnal proses Arolwg Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, er mwyn edrych ar ffiniau a threfniadau etholiadol cymunedau. Nid yw'r broses arolwg cymunedol serch hynny yn caniatáu newid enw cymuned sy'n bodoli eisoes ac mae'n rhaid dibynnu ar y pŵer o dan Ddeddf 1972.

5. Os bydd y Cyngor yn penderfynu newid enw'r gymuned, yna mae'r Ddeddf yn darparu y bydd rhaid iddo:

- anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru, at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, at Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans ac at y Cofrestrydd Cyffredinol; a
- chyhoeddi'r hysbysiad yn y gymuned ac mewn mannau eraill mewn unrhyw fodd y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

Mae'r Deddf hefyd yn darparu na fydd newid enw a wneir yn unol â'r adran hon yn effeithio ar unrhyw hawliau na rhwymedigaethau unrhyw gymuned nac unrhyw gyngor, awdurdod neu berson, nac yn gwneud unrhyw achos cyfreithiol yn ddiffygiol; a gall unrhyw achos cyfreithiol gael ei gychwyn neu ei barhau fel pe na bai newid enw.

**Barn yr Aelod Lleol**

6. Mae'r aelod lleol y Cynghorydd Jina Gwyrfai, Ward Yr Eifl wedi datgan ei bod yn gefnogol iawn i'r cais hwn er mwyn fod yn gynhwysol, yn deg, a bodloni dyhead trigolion y ddau bentref'.

**Argymhelliad**

7. Cymeradwyo newid enw Cymuned Llanaelhaearn i Trefor a Llanaelhaearn yn unol ag adran 76 Deddf Llywodraeth Leol 1972

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Gwasansethau Cyfreithiol sydd wedi paratoi yr adroddiad. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu ynglyn a phriodoldeb

**Y Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.